Canllawiau a Threfniadau

09 – 20 Tachwedd 2020

Wrth i ni groesawu holl ddisgyblion yr ysgol yn ôl ar gyfer hanner tymor newydd, gweler isod wybodaeth sydd wedi'i diweddaru/diwygio o'r Canllawiau a Threfniadau blaenorol a gyhoeddwyd. Mae'r holl wybodaeth arall yn y ddogfen ganllaw yn aros yr un fath. Hoffem ddiolch i chi am eich cefnogaeth yn ystod y cyfnod heriol hwn – cadwch yn ddiogel.

Gwersi Drama ac Addysg Gorfforol Bl.7+8 / Gwisg Ysgol

O ganlyniad i ystyriaethau Iechyd a Diogelwch yn sgîl niferoedd achosion positif Covid-19 cyn hanner tymor, rydym wedi gorfod ail-edrych ar ein darpariaeth mewn gwersi ymarferol unwaith yn rhagor. O ddydd Llun, 09/11/20, ni fydd disgyblion yn ymgymryd â gweithgareddau ymarferol yn ystod gwersi Drama ac Addysg Gorfforol, ond, yn hytrach, yn canolbwyntio ar elfennau theori y ddau bwnc. Felly, ar hyn o bryd, **nid oes angen i ddisgyblion wisgo cit Addysg Gorfforol i'r ysgol** ar ddiwrnod gwers am na fyddant yn ymgymryd â gweithgaredd corfforol. Nid oes 'chwaith angen i ddisgyblion ddod ag esgidiau hyfforddi i'r ysgol. Byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa. **Disgwylir i ddisgyblion wisgo gwisg ysgol lawn a chywir i'r ysgol (ag eithrio tei ysgol).**

Prydau Ysgol

Ni fydd y ffreutur ar agor a ni fyddwn yn darparu bwyd poeth i ddisgyblion na staff yr wythnos hon (9-13/11/20). Caiff y sefyllfa hon ei hadolygu'n rheolaidd. **Gofynnwn i ddisgyblion barhau i ddod â phecyn bwyd a diod i'r ysgol yn ddyddiol dros yr wythnos nesaf.** Darperir pecyn bwyd yn ddyddiol i'r disgyblion hynny sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Rydym yn gweithio gyda'r Awdurdod Lleol i sicrhau darpariaeth addas a diogel o fwyd poeth i ddisgyblion a byddwn yn rhannu gwybodaeth bellach gyda chi ar hyn yn ystod yr wythnos i ddod.

Nosweithiau a Chyfarfodydd Rhieni

Rydym yn parhau i ofyn i rieni gysylltu â ni dros ffôn /ebost, ac osgoi ddod i safle'r ysgol. Ni fydd nosweithiau rhieni yn digwydd yn ystod yr hanner tymor nesaf. Mae trefniadau amgen i'ch hysbysu o waith a chynnydd eich plentyn yn cael eu terfynu ar hyn o bryd, a rhieni Bl.7 a Bl.13 yn derbyn galwadau cyswllt yn ystod y tair wythnos nesaf.

Gorchudd Wyneb

Mae'n orfodol i ddisgyblion sy'n teithio ar fws ysgol i wisgo gorchudd wyneb tair haen, yn unol â chanllawiau RhCT. Mewn achos o ddisgybl yn gwrthod cydymffurfio gyda hyn, gall arwain at ddisgybl yn cael ei wahardd o'r bws ysgol. Disgwylir i ddisgyblion wisgo gorchudd wyneb ar goridorau a mannau ymgasglu ac rydym hefyd yn annog disgyblion i'w wisgo yn ystod gwersi.

Profiadau Dysgu Cyfunol

Dylai'ch plentyn sicrhau ei fod yn rhyngweithio gyda Google Classroom yn ddyddiol fel rhan o'i brofiad dysgu cyfunol. Cyfeiriwch unrhyw anawsterau mynediad at Arweinydd Blwyddyn eich plentyn.

Materion Covid-19

Gofynnwn yn garedig i chi gysylltu yn syth gyda ni gyda mater yn ymwneud â Covid-19 er mwyn i ni allu sicrhau'r prosesau cywir. Gallwch hefyd ein hebostio ni ar **covid@ygcwmrhondda.cymru**

Guidance & Arrangements

09 – 20 November 2020

As we welcome every year group back to school for this second half term, please see below updated/revised information to the previous Guidance & Arrangements issued. All other information within the guidance document remains the same. We wish to thank you for your co-operation during these challenging times – stay safe.

Year 7+8 PE and Drama Lessons / School Uniform

As a result of Health and Safety considerations, in light of the number of positive Covid-19 cases in school before half term, we have reconsidered our provision for PE and Drama lessons. From 09/11/20, no physical activities will be included in Drama and PE lessons and lessons will focus solely on theoretical aspects of both subjects. Therefore, **there is no need for pupils to wear PE kit** even on days that include PE lessons at present, or to bring trainers to school, as they will not be participating in physical activity. This will be revised regularly. **Full and correct school uniform is required every day (with the exception of a school tie).**

School Meals

The school canteen will not be open and no hot food will be provided for pupils or staff this week (9-13/11/20). **We kindly ask pupils to continue to bring a packed lunch to school daily during the next week.** A packed lunch will be provided daily for all pupils eligible for free school meals. We are currently working with the Local Authority to ensure safe and appropriate hot meal provision for pupils and we will share further information regarding these developments in the upcoming week.

Parents' Evenings & Meetings

We continue to ask all parents to contact us via 'phone / email as opposed to visiting us on site. Parents' evenings will not be held over the coming half term. Alternative arrangements to inform you of your child's work and progress are currently being finalised, with Yr.7 and Yr.13 parents receiving a telephone call within the next three weeks to discuss welbeing and progress.

Face Covering

The wearing of three layer face coverings on school transport is mandatory, in accordance with RCT guidelines. Failure to comply with this may mean that a pupil's access to school transport is compromised. We request that pupils wear face coverings whilst on school corridors and other communal areas, and we also advise pupils to wear a face covering during lessons.

Blended Learning Experiences

Your child should be ensuring that they interact daily with Google Classroom as part of their ongoing blended learning experience. Please refer any issues regarding log-in/access to your child's Head of Year.

Covid-19 Matters

We kindly ask you to contact us immediately with a Covid-19 related matter, so that we can ensure correct and prompt procedures are in place. You can also email us at **covid@ygcwmrhondda.cymru**